**Atodiad 2**

## Dadansoddi lleoliadau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg

### Methodoleg rhagamcan ar gyfer darpariaeth prif ffrwd

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio methodoleg rhagamcan cadarn ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol sy'n rhoi ystyriaeth i ddata cofrestru meddygon teulu'r GIG a data cyfrifiad ysgolion a gaiff ei gyflwyno a'i wirio gan holl ysgolion Caerdydd. Cafodd y setiau data diweddaraf sydd ar gael i lywio hyn eu cyflenwi gan y GIG ym mis Awst 2025 a gan ysgolion trwy CYBLD ym mis Ionawr 2025. Gan y gall rhagamcanion ond ystyried gwybodaeth hanesyddol a phresennol mae'r Cyngor hefyd yn nodi tueddiadau o fewn rhagamcanion (yn cymharu'n erbyn setiau data blaenorol), ac yn dadansoddi data ar ddewis ysgol a gwybodaeth gyd-destunol arall i gynhyrchu rhagolygon ledled y ddinas ac ym mhob cymdogaeth.

Mae dadansoddi data yn caniatáu i ragamcanion gael eu paratoi ar sail patrymau lleol ar lefel dalgylch ysgolion cynradd, yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd ac ar sail dinas gyfan. Mae pob un o'r rhain yn cynnig gwybodaeth gyd-destunol wahanol i lywio'r rhagamcanu ar nifer y lleoedd y gallai fod eu hangen er mwyn bodloni gofynion pob ardal a Chaerdydd yn gyffredinol.

Yr unedau daearyddol sydd fwyaf addas i ddadansoddi'r galw diweddar ac yn y dyfodol am leoedd mewn ysgolion uwchradd ym mhob ardal yw dalgylchoedd ysgolion uwchradd. Mae ystod ehangach o wybodaeth ddaearyddol gan gynnwys dalgylchoedd ysgolion cynradd cyfunol, gwybodaeth am y ddinas gyfan ac all-lif i awdurdodau derbyn eraill yn llywio cynllunio ar gyfer diwallu'r galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd. Nid yw dalgylchoedd ysgolion yng Nghaerdydd yr un fath â ffiniau wardiau ac yn aml maent yn gwasanaethu'r cyfan neu ran o sawl ardal ward.

Mae data cofrestru diweddaraf meddygon teulu'r GIG a oedd ar gael ar adeg y dadansoddiad yn caniatáu modelu derbyniadau cyfnod cynradd hyd at 2028/29.

Gellir modelu derbyniadau ysgolion uwchradd hyd at 2031/32, ar sail nifer y disgyblion a oedd eisoes wedi cofrestru yn y dosbarth Derbyn ar adeg y cyfrifiad ysgolion diweddaraf (CYBLD) ym mis Ionawr 2025. Byddai unrhyw fodelu y tu hwnt i 2031/32 yn seiliedig ar ddata poblogaeth yn unig, ac ni fyddai'n cynnwys unrhyw wybodaeth yn ymwneud derbyniadau i ysgolion cynradd.

**Digonolrwydd lleoedd mewn ysgolion cynradd ledled y ddinas**

Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion sy'n dechrau addysg gynradd ledled y ddinas yn parhau i fod yn isel yn y tri derbyniad nesaf o ganlyniad i ostyngiad parhaus yn y gyfradd genedigaethau a newidiadau i batrymau mudo, y ceir tystiolaeth ar ei gyfer mewn data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a setiau data cofrestru meddygon teulu diweddaraf y GIG. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yn gyson ym mhob rhan o'r ddinas.

Yn 2024/25, roedd tua 19% o'r lleoedd a oedd ar gael i blant oedran Derbyn mewn ysgolion cynradd yn rhai Cymraeg, mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg, ffrwd ddeuol neu ddwy iaith. Roedd hyn yn ddigon i ddarparu ar gyfer hyd at 25% o'r plant a dderbyniwyd i addysg gynradd yn 2024/25.

Roedd tua 81% o'r lleoedd a oedd ar gael i blant oedran Derbyn mewn ysgolion cynradd yn rhai cyfrwng Saesneg, mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg neu ffrwd ddeuol neu mewn ysgolion ffydd cyfrwng Saesneg.

Wrth i'r niferoedd sy’n cael eu derbyn i ysgolion leihau, byddai lefel y llefydd gwag ym mhob math o ddarpariaeth yn cynyddu. Byddai'r Cyngor yn gallu darparu ar gyfer canran uwch o'r boblogaeth gyffredinol mewn unrhyw un o'r mathau hyn o ddarpariaeth.


Mae nifer y lleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i gefnogi cynnydd yn y nifer sy’n manteisio ar hynny hyd at y targed isaf, sef 25%, yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Byddai angen rhagor o leoedd er mwyn cyrraedd y targed uchaf, sef 29%. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, byddai cynnydd o'r fath yn creu cyfran fwy o leoedd gwag, a byddai'n peryglu cynaliadwyedd ysgolion lleol eraill.

## Cyfraddau genedigaethau

Ers cyhoeddi CSCA 2022-31, mae'r gyfradd genedigaethau wedi parhau i ostwng.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos sut mae data cyfradd genedigaethau yn wahanol i'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, 2014, 2018 a'r rhai a gyhoeddwyd yn 2025 a oedd yn seiliedig ar ddata o 2022.Nifer y genedigaethau yn 2024 oedd 3,626 – yn sylweddol is nag amcanestyniad Llywodraeth Cymru a oedd yn seiliedig ar ddata o 2022, sef 4,063 a'r amcanestyniad blaenorol yn seiliedig ar 2018 o 4,026. Roedd amcanestyniad LIC yn seiliedig ar 2022 o 4,063 yn 2024 12% yn uwch na ffigurau cyfraddau geni gwirioneddol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025.

**Ffigur 1: Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y plant 0 oed o gymharu â'r gyfradd genedigaethau**




Gan nad yw pob un o'r pum amcanestyniad diwethaf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cyd-fynd yn agos â data cyfraddau geni gwirioneddol ar gyfer Caerdydd, nid yw'r data hwn yn addas ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol yng Nghaerdydd. Yn hytrach, mae'r Cyngor yn dadansoddi data cyfraddau geni sy'n cael eu cyhoeddi gan y GIG i sicrhau cadernid yn ei gynllunio.

**Derbyniadau i Addysg Feithrin**

Yn 2024/25, addysgwyd 783 (19.2%) o ddisgyblion mewn dosbarthiadau Meithrin (carfanau ‘Plant sy’n Codi’n 4 oed’ a ‘Phlant sy’n Codi’n 3 oed) drwy gyfrwng y Gymraeg, cynnydd o 0.8 pwynt canran ers 2023/24.

Yn 2023/24, nifer y disgyblion meithrin a gofrestrwyd yn y garfan ‘Codi’n 4 oed’ mewn addysg cyfrwng Cymraeg oedd 608 (18.5%). Yn 2024/25, addysgwyd 600 o ddysgwyr ‘Codi’n 4 oed’ mewn dosbarthiadau Meithrin (18.9%) drwy gyfrwng y Gymraeg (data CYBLD 2025). Mae hyn yn is na tharged CSCA, sef bod 755 neu 20.5% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'n cynrychioli twf cymesur.

Er bod digonedd lleoedd, ac ehangu'r ddarpariaeth feithrin, yn ffactor allweddol wrth gefnogi a hybu twf yn y nifer sy’n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd, nid yw'r fethodoleg rhagamcanu ar gyfer derbyniadau cynradd yn cynnwys data derbyn meithrinfeydd. Mae hyn oherwydd bod rhai rhieni'n dewis peidio â manteisio ar le addysg feithrin, tra bod eraill yn dewis gohirio’r dyddiad dechrau. Mae unrhyw ddadansoddiad o'r data hwn i lywio’r gwaith o gynllunio dosbarthiadau Derbyn felly’n llai cadarn na data'r boblogaeth gyfan.

**Derbyniadau i addysg gynradd**

Nododd y ddogfen Taflwybr Caerdydd 2050 a atodwyd i CSCA 2022-2031 fod nifer y plant oedran Derbyn sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg wedi amrywio rhwng 2010 a 2020 ac mai cynnydd araf yw'r duedd gyffredinol.

Yn dilyn cynnydd sydyn yn 2020/21 lle derbyniwyd 749 o ddisgyblion, mae setiau data cyfrifiad ysgolion olynol ar gyfer disgyblion a gofrestrodd mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith dros y pedair blynedd ganlynol wedi bod yn hynod gyson, rhwng 655 a 667 o ddisgyblion. Bydd carfan Derbyn 2024/25, sef 667 o ddisgyblion, yn symud ymlaen i addysg uwchradd yn 2031/32.


Yn 2024/25, gostyngodd canran y dysgwyr oedran Derbyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg i 17.5% wrth i nifer y dysgwyr Derbyn a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg ostwng 13 disgybli i 641 (data CYBLD 2025). Er bod nifer y dysgwyr wedi gostwng o'i gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, mae canran y dysgwyr wedi aros tua'r un fath â'r garfan o ddysgwyr ar draws pob ysgol yng Nghaerdydd, sydd 125 yn llai na'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu gostyngiad cynharach yn y gyfradd genedigaethau.

Canran y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith oedd 18.2%. Roedd 26 o ddisgyblion ar y gofrestr yn y dosbarth Derbyn dwy iaith yn Ysgol Gynradd Groes-wen, yn ei hail dderbyniad. Mae canran gyfunol y dysgwyr cyfrwng Cymraeg a dwy iaith yn parhau i fod yn is na tharged CSCA ar gyfer nifer a chanran y dysgwyr yn y dosbarth Derbyn sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, sef 755 o ddisgyblion, neu 20.5%, ar gyfer 2024/25.

Mae derbyniadau sefydlog i'r dosbarth Derbyn wedi'u gosod yn erbyn cefndir o ostyngiad yng nghyfanswm nifer y disgyblion yn yr ysgol, ac felly'n cynrychioli twf cymesur.


Mae taflwybr CSCA Caerdydd yn cadarnhau bod canran y disgyblion sy'n cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn addysg Gymraeg, gan gynnwys dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dwy iaith, wedi cynyddu 0.25% y flwyddyn rhwng 2019/20 a 2024/25.

**Ffigur 2: Patrwm twf canrannol hanesyddol y galw am leoedd Derbyn prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith yng Nghaerdydd (CYBLD)**




Os bydd canran y disgyblion yn cynyddu ar yr un gyfradd rhwng 2026 a 2030, byddai 20.2% o ddisgyblion sy'n dechrau yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2031 yn mynychu ysgolion Cymraeg.

**Ffigur 3: Y cynnydd rhagamcanol yng nghanran y disgyblion cyfrwng Cymraeg prif ffrwd rhwng 2026 a 2031 yn seiliedig ar gyfradd twf o 0.27%**




Y targed a osodwyd i Gaerdydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer canran y disgyblion sy'n cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg yw 25% erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r dangosydd trothwy o 25% erbyn 2030, mae angen tua 0.7% o dwf blynyddol. Mae hyn tua thair gwaith y lefel gyfartalog ddiweddar o dwf blynyddol.

**Ffigur 4: Twf hanesyddol y boblogaeth Derbyn cyfrwng Cymraeg wedi'i allosod i 2030 (CYBLD)**



**Cadw disgyblion yn y cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg**

Mae Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd wedi sefydlu nifer o is-grwpiau a gweithgorau i ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a fabwysiadwyd yng Nghaerdydd. Mae'r is-grŵp 'Cadw', gan gynnwys penaethiaid pob ysgol uwchradd ac ysgol gynradd sy'n cynrychioli pob clwstwr ysgol uwchradd, wedi cyfarfod yn rheolaidd i adolygu data sy'n ymwneud â chadw nifer net y dysgwyr yn y sector.

Mae'r meysydd y mae'r grŵp yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys cadw disgyblion yn y cyfnod cynradd, pontio disgyblion o addysg gynradd i addysg uwchradd, a chadw disgyblion yn y cyfnod uwchradd.

Mae Tabl 1 yn dangos niferoedd disgyblion mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg fel y'u cofnodwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Mae'r cyfrifiad yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dwy iaith mewn ysgolion yng Nghaerdydd ni waeth ble maen nhw'n byw.

| **Blwyddyn y CYBLD** | **Blwyddyn Cwricwlwm** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** |
| 2018 | 708 | 726 | 662 | 668 | 640 | 623 | 573 | **4600** |
| 2019 | 705 | 706 | 717 | 643 | 655 | 623 | 611 | **4660** |
| 2020 | 683 | 706 | 691 | 709 | 639 | 640 | 615 | **4683** |
| 2021 | 749 | 662 | 682 | 671 | 696 | 619 | 628 | **4707** |
| 2022 | 656 | 735 | 650 | 665 | 658 | 684 | 612 | **4660** |
| 2023 | 658 | 653 | 724 | 638 | 648 | 657 | 670 | **4648** |
| 2024 | 657 | 650 | 638 | 718 | 627 | 635 | 643 | **4568** |
| 2025 | 667 | 655 | 650 | 633 | 714 | 616 | 626 | **4561** |

Mae maint pob carfan o ddisgyblion mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn wrth ddyrchafu i'r grŵp blwyddyn nesaf, ac eithrio'r garfan Derbyn yn 2019 a ddyrchafodd i Flwyddyn 1 yn 2020.

Mae'r tabl drosodd yn dangos dadansoddiad o faint y garfan sy'n cael ei chadw mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg wrth iddynt drosglwyddo trwy'r cyfnod cynradd. Cyfrifir y canran sy'n pontio ar draws grwpiau blwyddyn trwy gyfartaleddu cyfanswm yr holl ddisgyblion sy'n pontio rhwng grwpiau blwyddyn olynol ar gyfer un flwyddyn o bontio.

| Casglu data CYBLD | Canran gyfartalog y garfan o ddisgyblion cynradd a gadwyd, Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 |
|---|---|
| 2018 i 2019 | 98.2% |
| 2019 i 2020 | 98.8% |
| 2020 i 2021 | 97.3% |
| 2021 i 2022 | 98.2% |
| 2022 i 2023 | 98.6% |
| 2023 i 2024 | 98.3% |
| 2024 i 2025 | 99.2% |
| Cyfartaledd 3 blynedd y ganran flynyddol o’r garfan a gadwyd | 98.7% |
| Y cyfanswm a gadwyd trwy bontio ysgol | 92.4% |

Mae'r cyfnodau cynradd yn dangos colled net yn nifer y disgyblion wrth i'r carfanau symud trwy'r ysgol – rhwng 1% a 3% fel arfer. Y gyfradd gadw net gyfartalog rhwng grwpiau blwyddyn ysgol gynradd, dros y cyfnod o 2022/23 i 2024/25 yw tua 98.7%, tra bod 92.4% o ddysgwyr (net) sy'n dechrau addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn Derbyn yn cael eu cadw yn y sector hyd at Flwyddyn 6.

Un o ganfyddiadau allweddol y grŵp Cadw yw bod cyfran y dysgwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf o fewn cymunedau â symudedd uwch, h.y. mwy o deuluoedd yn symud i mewn ac allan o gymuned. Mae hon yn duedd sefydledig sydd heb newid yn fawr ers blynyddoedd lawer.

Er bod y Cyngor yn hyrwyddo'r cyfle i ddysgwyr drosglwyddo i addysg gynradd neu uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy ddosbarth yn yr Uned Drochi, mae cyfran y dysgwyr sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn is na chyfran y dysgwyr sy'n newydd i Gaerdydd, neu i Gymru.

Er bod y ffigurau hyn yn amrywio, mae'r cyfartaleddau hyn yn gymharol gyson ac yn cefnogi rhagamcanion cadarn ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**Disgyblion yn pontio o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd**

Mae nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ym Mlwyddyn 6 wedi amrywio ers 2017-18, gan godi i 670 o ddisgyblion yn 2022-23 ac yna disgyn. Mae'r brig hwn o 670 o ddysgwyr yn 2022/23 yn cyd-fynd â'r brig yn y gyfradd genedigaethau yn 2011, a'r derbyniad uchaf i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ar y pryd o 744 o ddisgyblion yn 2016/17.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd a dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ers 2017/18.

***Nifer ar Gofrestr ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd cyfrwng – data CYBLD 2018-2025***

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Creigiau** | 20 | 25 | 22 | 23 | 26 | 29 | 24 | 26 |
| **Bro Eirwg** | 55 | 56 | 50 | 57 | 54 | 51 | 52 | 46 |
| **Coed y Gof** | 38 | 39 | 43 | 34 | 53 | 39 | 39 | 25 |
| **Glan Ceubal** | 7 | 7 | 10 | 19 | 18 | 20 | 20 | 30 |
| **Glan Morfa** | 23 | 26 | 19 | 27 | 19 | 25 | 28 | 28 |
| **Gwaelod** | 30 | 25 | 26 | 29 | 23 | 26 | 24 | 26 |
| **Hamadryad** | | | | | | 26 | 17 | 26 |
| **Melin Gruffydd** | 55 | 60 | 57 | 53 | 60 | 61 | 61 | 55 |
| **Mynydd Bychan** | 29 | 28 | 28 | 26 | 28 | 24 | 29 | 28 |
| **Nant Caerau** | 26 | 25 | 29 | 30 | 29 | 30 | 24 | 25 |
| **Pen y Pil** | 18 | 23 | 30 | 20 | 22 | 26 | 19 | 21 |
| **Pencae** | 30 | 30 | 29 | 29 | 29 | 31 | 22 | 30 |
| **Pen y Groes** | 12 | 11 | 10 | 5 | 7 | 24 | 15 | 10 |
| **Pwll Coch** | 69 | 76 | 53 | 58 | 39 | 36 | 46 | 36 |
| **Treganna** | 49 | 58 | 81 | 89 | 86 | 84 | 84 | 81 |
| **Y Berllan Deg** | 56 | 53 | 56 | 60 | 45 | 59 | 50 | 47 |
| **Y Wern** | 56 | 69 | 72 | 69 | 74 | 79 | 89 | 84 |
| | **573** | **611** | **615** | **628** | **612** | **670** | **643** | **626** |

Mae'r niferoedd ar y gofrestr ym Mlwyddyn 6 wedi amrywio ers 2017-18, gan gynyddu i 670 o ddisgyblion yn 2022-23 yn unol â brig y gyfradd genedigaethau yn 2011. Gostyngodd y niferoedd yn y blynyddoedd canlynol i 626 o ddisgyblion yn 2024-25.

Mae nifer y dysgwyr sy'n cofrestru mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7 hefyd wedi amrywio ers 2017-18. Mae'r brig o 641 o ddysgwyr yn 2023/24 yn adlewyrchu'r garfan o 670 o ddisgyblion yn 2022-23.

***Nifer ar Gofrestr ym Mlwyddyn 7 mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg – data CYBLD 2018-2025***

| | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bro Edern** | 136 | 151 | 183 | 165 | 162 | 143 | 186 | 173 |
| **Glantaf** | 224 | 221 | 243 | 233 | 241 | 237 | 245 | 255 |
| **Plasmawr** | 190 | 179 | 182 | 203 | 202 | 213 | 210 | 193 |
| | **550** | **551** | **608** | **601** | **605** | **593** | **641** | **621** |

Mae nifer y disgyblion Blwyddyn 7 ar y gofrestr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob carfan yn is na'r nifer ar y gofrestr ym Mlwyddyn 6 yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn rhannol oherwydd dewis rhieni; mae rhai yn nodi eu bod yn ffafrio ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn unig, mae rhai yn nodi ffafriaeth uwch ar gyfer ysgol gyfrwng Saesneg benodol ond hefyd yn nodi ffafriaeth is ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg, mae rhai yn gwneud cais i ysgolion mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill sy'n cyd-fynd â'u cyfeiriad cartref, tra bod rhai yn trosglwyddo i'r sector annibynnol. Mae disgyblion eraill yn symud o Gaerdydd rhwng dyddiadau'r cyfrifiadau.

Bob blwyddyn, mae rhai disgyblion yn trosglwyddo o addysg gynradd cyfrwng Saesneg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae hyn fel arfer yn digwydd fel dewis is yn y rownd gychwynnol o ddyraniadau, neu fel dewis is mewn rownd ddyrannu ddiweddarach.

***Cymharu carfanau Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 mewn addysg cyfrwng Cymraeg***

| | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y disgyblion B6 CC** | 573 | 611 | 615 | 628 | 612 | 670 | 643 |
| | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
| **Cyfanswm y disgyblion B7 CC** | 551 | 608 | 601 | 605 | 593 | 641 | 621 |
| **Gwahaniaeth** | -22 | -3 | -14 | -23 | -19 | -29 | -22 |

## Cadw nifer net y disgyblion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl canlynol yn dangos cymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfraddau cadw net mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg wrth i ddisgyblion bontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd.

Cyfrifir y canran sy’n pontio ar draws grwpiau blwyddyn trwy gyfartaleddu cyfanswm yr holl ddisgyblion sy’n pontio rhwng grwpiau blwyddyn olynol ar gyfer un flwyddyn o bontio.

| **Casglu data CYBLD** | **Canran y disgyblion sy’n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7** |
|---|---|
| 2018 i 2019 | 96.2% |
| 2019 i 2020 | 99.5% |
| 2020 i 2021 | 97.7% |
| 2021 i 2022 | 96.3% |
| 2022 i 2023 | 96.9% |
| 2023 i 2024 | 95.7% |
| 2024 i 2025 | 96.6% |
| Cyfartaledd 3 blynedd y ganran flynyddol o’r garfan a gadwyd | 95.7% |

Mae mwy o ddisgyblion yn cael eu colli wrth bontio o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd nag unrhyw grŵp blwyddyn unigol arall, gyda'r golled gyfartalog dros y 3 blynedd diwethaf yn 3.6%. Mae tua 96.4% o garfanau Blwyddyn 6 yn symud ymlaen i Flwyddyn 7 mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**Y ddarpariaeth bresennol o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg**

Mae maint a lleoliad pob un o ysgolion uwchradd Caerdydd, yn y sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, yn adlewyrchu argaeledd safleoedd ar adeg datblygu'r cynigion a'u haliniad strategol â blaenoriaethau'r Cyngor ar y pryd.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol wyth dosbarth mynediad i ddysgwyr 11-19 oed, sydd wedi'i lleoli ar Heol y Bont, Ystum Taf. I ddechrau, roedd yr ysgol yn gwasanaethu pob dysgwr yng Nghaerdydd a oedd yn dymuno cael addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn ysgol saith dosbarth mynediad i ddysgwyr 11-19 oed, sydd wedi'i lleoli ar Heol Pentre-baen, y Tyllgoed. Sefydlwyd yr ysgol yn ffurfiol ym mis Medi 1998 fel yr ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, ar hen safle ysgol Waterhall. Ar ôl ei sefydlu, roedd Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn gwasanaethu dalgylch i'r gorllewin o afon Taf, tra bod dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf wedi'i leihau i'r ardal i'r dwyrain o afon Taf.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn ysgol chwe dosbarth mynediad i ddysgwyr 11-19 oed, sydd wedi'i lleoli ar Heol Llanedern, Pen-y-lan. Sefydlwyd yr ysgol yn ffurfiol ym mis Medi 2012 fel y drydedd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, ar hen safle ysgol Teilo Sant. Yn dilyn ei sefydlu, adolygwyd dalgylchoedd pob ysgol a phenderfynwyd ar rhai newydd ar ôl ymgynghori.

Yn fwy diweddar, ymgynghorodd y Cyngor ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gynnar yn 2020, er mwyn paru nifer y lleoedd yn well â nifer y lleoedd a ddefnyddir yn y dyfodol, ac fel rhan o'r ymarfer hwnnw ystyriwyd yr ysgolion agosaf at ddisgyblion a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

Datblygwyd y newidiadau i'r dalgylchoedd gan weithgor o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd, a'u nod oedd

- sefydlu dalgylch ar gyfer Ysgol Gymraeg Hamadryad,
- darparu cydbwysedd priodol a chynaliadwy o ran argaeledd a'r defnydd o leoedd ysgol gynradd ac uwchradd ym mhob dalgylch, a
- cefnogi twf yn y sector.

Daeth y newidiadau hyn i rym ym mis Medi 2021.

Yn anochel, gan fod tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas, mae rhai rhannau o ddalgylch pob ysgol yn fwy na thair milltir o safle'r ysgol. Lle mae dysgwyr yn byw mwy na thair milltir o'u hysgol uwchradd leol, rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol agosaf.

Mae polisi trafnidiaeth ysgol Caerdydd yn sicrhau bod trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei darparu i'r math o ddarpariaeth a ffefrir, boed hynny'n ddarpariaeth Gymraeg, yn ddarpariaeth Saesneg neu'n ddarpariaeth ffydd. Mae'r Cyngor yn ariannu'r trefniant hwn yn ôl disgresiwn, gan gefnogi teuluoedd i gofrestru yn y math o ddarpariaeth a ffefrir ganddynt, sy'n fwy na gofynion statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Llywodraeth Cymru ac sy'n cefnogi teuluoedd i gael mynediad teg i ddarpariaeth Gymraeg.

Er bod y niferoedd derbyn wedi bod yn gymharol gyson, mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan fod hyn yn seiliedig ar gyfeiriadau cartref disgyblion.

Yn y sector cyfrwng Cymraeg, mae dysgwyr yn y cymunedau canlynol yn cael eu cefnogi gan drafnidiaeth am ddim o'r cartref i'w hysgol cyfrwng Cymraeg leol:

- Dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern: dysgwyr sy'n byw mewn rhannau o'r Sblot, Llanrhymni, Tredelerch, Trowbridge a Llaneirwg

- Dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf: dysgwyr sy'n byw mewn rhannau o Butetown, Grangetown, Llys-faen, Llanisien a'r Ddraenen

- Dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr: dysgwyr sy'n byw mewn rhannau o Gaerau, Trelái, Pentre-poeth, Pentyrch a Chreigiau.

**Ymgymeriadau diweddar a rhagamcanol o ran lleoedd cyfrwng Cymraeg uwchradd**

Er bod nifer y derbyniadau i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y lleoedd dros ben wedi bod yn isel, yn gyson â nifer y derbyniadau i ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cynlluniodd a gweithredodd y Cyngor fesur dros dro i gynyddu'r capasiti ym mlwyddyn derbyn 2023/24 drwy gynyddu'r Nifer Derbyn yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern dros dro o 180 o leoedd i 210 o leoedd ar y safle presennol.

Er bod nifer y derbyniadau yn 2024/25 a 2025/26 yn is, a rhagamcenir nifer is o dderbyniadau yn 2026/27, bydd angen cynyddu'r capasiti dros dro eto ar gyfer blwyddyn derbyn 2027/28. Rhagamcenir y bydd nifer y derbyniadau i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn is o 2028/29 hyd at o leiaf 2031/32, gan ystyried cyfraddau cadw net diweddar ar gyfer disgyblion sydd eisoes wedi cofrestru mewn addysg gynradd.

Gan gymhwyso'r cyfraddau cadw net diweddar yn y cyfnod cynradd ac wrth drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd, byddai angen derbyniadau cyson o fwy na 720 o ddisgyblion yn y flwyddyn Derbyn i fynd heibio'r capasiti presennol ar gyfer mynediad i addysg uwchradd, sef 630 o leoedd / 21 dosbarth mynediad. Byddai derbyn 720 o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn yn 2027/28 yn cyfateb i tua 23% o ddysgwyr, sy'n sylweddol uwch na'r 18.5% presennol.

Byddai angen derbyniadau cyson o fwy na 820 o ddisgyblion i'r flwyddyn Derbyn i fynd heibio'r capasiti presennol wrth ddechrau addysg uwchradd, sef 720 o leoedd (24 dosbarth mynediad). Mae hyn yn cyfateb i bedair ysgol uwchradd â chwe dosbarth mynediad yr un. Byddai derbyn 820 o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn yn 2027/28 yn cyfateb i tua 26% o ddysgwyr.

Mae Is-grŵp ‘Cadw’ y Fforwm Addysg Gymraeg hefyd wedi adolygu'r galw rhagamcanol am leoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi’r gwaith o gynllunio ar gyfer derbyniadau yn y dyfodol a chadw disgyblion sy'n symud o addysg gynradd i addysg uwchradd yn y sector.

**Ymgymeriadau diweddar a rhagamcanol o ran lleoedd cyfrwng Cymraeg uwchradd**

Er bod nifer y derbyniadau i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y lleoedd dros ben wedi bod yn isel, yn gyson â nifer y derbyniadau i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Cynlluniodd a gweithredodd y Cyngor fesur dros dro i gynyddu'r capasiti ym mlwyddyn derbyn 2023/24 drwy gynyddu'r Nifer Derbyn yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern dros dro o 180 o leoedd i 210 o leoedd ar y safle presennol.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau nifer y disgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

| Nifer y disgyblion ar y gofrestr ym Mlwyddyn 7, o'i gymharu â nifer y lleoedd sydd ar gael (yn cynnwys mesurau dros dro) (yn cynnwys disgyblion sy'n byw y tu hwnt i ffin Caerdydd) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol Bro Edern | | Ysgol Glantaf* | | Ysgol Plasmawr* | | Cyfanswm | | |
| | Lleoedd ar gael | Disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd ar gael | Disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd ar gael | Disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd ar gael | Disgyblion ar y gofrestr | % CC |
| 2012/13 | 180 | 71 | 240 | 155 | 180 | 170 | 600 | 396 | 11.9% |
| 2013/14 | 180 | 77 | 240 | 176 | 180 | 172 | 600 | 425 | 13.0% |
| 2014/15 | 180 | 105 | 240 | 171 | 180 | 187 | 600 | 463 | 13.6% |
| 2015/16 | 180 | 116 | 240 | 175 | 180 | 189 | 600 | 480 | 14.3% |
| 2016/17 | 180 | 131 | 240 | 194 | 180 | 176 | 600 | 501 | 14.1% |
| 2017/18 | 180 | 136 | 240 | 224 | 180 | 190 | 600 | 550 | 15.0% |
| 2018/19 | 180 | 151 | 240 | 221 | 180 | 179 | 600 | 551 | 14.4% |
| 2019/20 | 180 | 183 | 240 | 243 | 210 | 182 | 630 | 608 | 15.2% |
| 2020/21 | 180 | 165 | 240 | 233 | 210 | 204 | 630 | 602 | 14.7% |
| 2021/22 | 180 | 162 | 240 | 241 | 210 | 202 | 630 | 605 | 14.8% |
| 2022/23 | 180 | 143 | 240 | 237 | 210 | 213 | 630 | 593 | 14.1% |
| 2023/24 | 180 | 186 | 240 | 245* | 210 | 210 | 630 | 641 | 15.1% |
| 2024/25 | 180 | 173 | 240 | 255* | 210 | 193* | 630 | 621* | 15.3% |
| 2025/26 | 180 | 148 | 240 | 240* | 210 | 203* | 630 | 591* | I'w gadarnhau* |

DS: Data derbyniadau dros dro yw data 2025/26; nid yw setiau data terfynol ar gael eto

* yn cynnwys lleoliadau yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol, ar ben y Nifer Derbyn Cyhoeddedig

Mae'r tabl drosodd yn darparu crynodeb o niferoedd derbyn diweddar, cymhariaeth o setiau data rhagamcanol, a niferoedd derbyn rhagamcanol y dyfodol ar gyfer y ddinas. Mae'r set ddata rhagamcanol yn cael ei diweddaru bob blwyddyn, i ystyried cyfraddau cadw disgyblion sy’n wahanol ar gyfer pob grŵp oedran, sy'n golygu y bydd niferoedd derbyn rhagamcanol yn amrywio.

Mae aliniad agos y rhagamcanion diweddar â lleoliadau gwirioneddol yn golygu y gellir paratoi rhagolygon cadarn.

Tabl: Nifer y lleoedd Blwyddyn 7 a ddefnyddiwyd yn ddiweddar a'r galw rhagamcanol wedi'i fodelu ar ddata cyfrifiad ysgolion a data cofrestru meddygon teulu cyn ysgol
**Allwedd**: Cysgod llwyd = data cyfrifiad blynyddol Blwyddyn 7 a ddarparwyd gan ysgolion ym mis Ionawr (CYBLD)
Cysgod glas = nifer derbyn Blwyddyn 7 rhagamcanol, gan gymhwyso cyfraddau cadw net diweddar o ddata cyfrifiad ysgolion ar gyfer disgyblion sydd wedi cofrestru mewn addysg gynradd

| **Blwyddyn Ysgol** | Cyfrifiad a rhagamcan 2021 | Cyfrifiad a rhagamcan 2022 | Cyfrifiad a rhagamcan 2023 | Cyfrifiad a rhagamcan 2024 | Cyfrifiad a rhagamcan 2025 | **Nifer derbyn rhagamcanol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 602 | 602 | 602 | 602 | 602 | |
| 2021/22 | 616 | 605 | 605 | 605 | 605 | |
| 2022/23 | 597 | 596 | 593 | 593 | 593 | |
| 2023/24 | 652 | 656 | 649 | 641 | 641 | |
| 2024/25 | 620 | 617 | 625 | 619 | 621 | |
| 2025/26 | 616 | 613 | 610 | 599 | 585 | 575-605 |
| 2026/27 | 582 | 585 | 587 | 584 | 567 | 560-590 |
| 2027/28 | 648 | 646 | 651 | 655 | 637 | 630-660 |
| 2028/29 | | 565 | 576 | 573 | 553 | 550-580 |
| 2029/30 | | | 572 | 573 | 554 | 550-580 |
| 2030/31 | | | | 573 | 543 | 540-580 |
| 2031/32 | | | | | 548 | 545-585 |

Mae'n amlwg yn y setiau data diweddaraf bod cyfraddau cadw disgyblion rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 wedi lleihau. Mae rhagamcanion felly'n adlewyrchu hyn, ac wedi lleihau dros amser. Pe bai'r gyfradd cadw'n cynyddu yn y blynyddoedd i ddod, byddai'r niferoedd derbyn rhagamcanol yn agosach at ben uchaf yr amrediad nag at ben isaf yr amrediad.

Ar y cyfan, mae'r holl ddata sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos nifer derbyn uchel yn 2027/28, ac ar ôl hynny rhagamcenir y bydd niferoedd derbyn yn is tan 2031/32, gan adlewyrchu carfanau llai yn ymuno â'r cyfnod cynradd a chyfraddau genedigaethau isel yn ddiweddar.

## Cadw disgyblion yn y cyfnod uwchradd cyfrwng Cymraeg

Mae Tabl 1 yn dangos niferoedd disgyblion mewn ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Cymraeg fel y'u cofnodwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Mae'r cyfrifiad yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dwy iaith mewn ysgolion yng Nghaerdydd ni waeth ble maen nhw'n byw.

| Blwyddyn y CYBLD | Blwyddyn Cwricwlwm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | Cyfanswm |
| 2018 | 550 | 494 | 467 | 451 | 417 | **2379** |
| 2019 | 551 | 546 | 489 | 462 | 439 | **2487** |
| 2020 | 608 | 550 | 544 | 487 | 458 | **2647** |
| 2021 | 601 | 596 | 544 | 536 | 479 | **2756** |
| 2022 | 605 | 600 | 583 | 538 | 528 | **2854** |
| 2023 | 593 | 603 | 591 | 576 | 535 | **2898** |
| 2024 | 641 | 591 | 599 | 579 | 574 | **2984** |
| 2025 | 621 | 631 | 577 | 586 | 573 | **2988** |

Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o faint y garfan sy'n cael ei chadw mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg wrth iddynt bontio trwy’r ysgol.

Cyfrifir y canran sy’n pontio ar draws grwpiau blwyddyn trwy gyfartaleddu cyfanswm yr holl ddisgyblion sy’n pontio rhwng grwpiau blwyddyn olynol ar gyfer un flwyddyn o bontio.

| Casglu data CYBLD | Canran gyfartalog y garfan o ddisgyblion uwchradd a gadwyd, Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 |
|---|---|
| 2018 i 2019 | 98.6% |
| 2019 i 2020 | 99.5% |
| 2020 i 2021 | 98.5% |
| 2021 i 2022 | 98.8% |
| 2022 i 2023 | 99.1% |
| 2023 i 2024 | 99.2% |
| 2024 i 2025 | 98.2% |
| Cyfartaledd 3 blynedd y ganran flynyddol o’r garfan a gadwyd | 98.8% |
| Y cyfanswm a gadwyd trwy bontio ysgol: Derbyn i Flwyddyn 11 | 95.4% |

Mae’r gyfradd cadw yn y cyfnod uwchradd yn parhau i fod yn gryf, gyda chyfartaledd o 98.8% bob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o ychydig yn llai 4.6% ym maint y garfan rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 11.

## Cyfradd cadw net cyffredinol ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl canlynol yn cymharu patrymau pontio mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg â hynny mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg.

***Tabl sy'n cymharu cyfartaledd 3 blynedd canran pontio carfanau disgyblion mewn ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd***
***(Setiau data CYBLD 2022-2025)***

| **Lleoliad** | **Cyfartaledd 3 blynedd y ganran o'r garfan o ddisgyblion cynradd a gadwyd, Derbyn i Flwyddyn 6, PLASC 2022-2025** | **Cyfartaledd 3 blynedd y ganran o'r garfan o ddisgyblion a bontiodd o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7** | **Cyfartaledd 3 blynedd y ganran o'r garfan o ddisgyblion uwchradd a gadwyd, Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11, PLASC 2022-2025** |
|---|---|---|---|
| Ysgolion Cymunedol Cyfrwng Cymraeg | 92.4% | 98.7% | 98.8% |
| Ysgolion Cymunedol Cyfrwng Saesneg | 100.7% | 86.6% | 99.6% |

Mae'r Cyngor wedi nodi sawl ffactor sy'n cyfrannu at y duedd gyffredinol o all-lif o ysgolion, gan gynnwys:

- Dewis rhieni: Dewis y rhieni yw'r penderfyniad i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae rhai rhieni'n dewis addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a hefyd yn cynllunio ymlaen llaw i drosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg. Nodwyd hyn ar ffurflenni dewis derbyn i'r ysgol ac mewn ymgynghoriadau yn y gorffennol ar ddiwygio trefniadau derbyn.
- Symudedd disgyblion: Mae cyfraddau symud disgyblion Caerdydd yn uchel, yn enwedig yn ne'r ddinas. Efallai y bydd rhai teuluoedd di-Gymraeg sy'n symud i Gaerdydd y tu allan i'r rowndiau derbyn arferol yn gweld yr her ychwanegol o drochi yn y Gymraeg yn rhwystr rhag dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â disgyblion/rhieni sy'n fwy sefydlog, yn enwedig pan nad yw'r teulu'n bwriadu aros yn y ddinas.
- Pellter/cyfleustra: Mae nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd yn sylweddol uwch na nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg. Er mwyn darparu ar gyfer y disgyblion hyn, mae mwy o ysgolion cyfrwng Saesneg wedi'u dosbarthu ar draws y ddinas. Mae hyn yn golygu, i lawer o ddisgyblion, y byddai eu hysgol agosaf yn ysgol cyfrwng Saesneg.